BRITISH COUNCIL

# Nodiadau i Ymgeiswyr

## Adnoddau

Rydym wedi casglu gwybodaeth am y diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn Tsieina at ei gilydd, gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol i ymgeiswyr. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i ddau adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, dolen i adnodd *China Now* y British Council, a rhestr o brif wyliau diwylliannol Tsiena:

1. A Guide to Arts and Culture Opportunities in Mainland China
2. Arts and Technologies in China: Connecting Futures
3. China Now (*Adnodd a luniwyd gan y British Council ar gyfer sefydliadau ym maes y celfyddydau ac artistiaid sydd â diddordeb mewn gweithio yn Tsieina.)*
4. Rhestr o Wyliau

## Rhestr o Wyliau

Mae croeso i ymgeiswyr wneud cais i gymryd rhan mewn rhaglen ddirprwyo ffurfiol, ond nid yw hynny'n ofynnol

### Theatr a Dawns

**Gŵyl Theatr Gyfoes ACT yn Shanghai***
*Cynhelir yr ŵyl hon gan Ganolfan Celfyddydau Dramatig Shanghai (SDAC) mewn nifer o wahanol ganolfannau. Mae'n ddigwyddiad blynyddol sy'n cyflwyno celfyddydau perfformio rhyngwladol a Tsieineaidd yn Shanghai - gyda ffocws ar lwyfannu gweithiau theatr newydd a blaengar. Yn 2025, cyflwynwyd wyth cynhyrchiad fel rhan o'r ŵyl (o'r Eidal, Canada, yr Almaen, y Deyrnas Unedig a Tsieina) - rhwng 30 Awst a 9 Hydref.*

- ***Gŵyl Theatr Aranya****
*Mae Gŵyl Theatr Aranya yn chwalu ffiniau celfyddydol drwy gyflwyno gweithiau ar draws ystod o ffurfiau celf sy'n amrywiol, cyfoes, agored a chynhwysol. Mae'n rhoi cyfle i gannoedd o artistiaid o fyd drama, llenyddiaeth, cerddoriaeth, dawns, pensaernïaeth a nifer o feysydd eraill i ddod at ei gilydd i gyd-greu a chyd-fodoli mewn cefnfor unigryw o gelfyddyd. Mae'n ŵyl flynyddol a gynhelir am ddeg diwrnod yng nghanol mis Mehefin - mewn cymuned glan-môr ger Beijing. Yn ystod gŵyl 2025 cyflwynwyd 29 o gynyrchiadau Tsieineaidd a rhyngwladol, gyda 94 o berfformiadau. Daeth rhaglen "Aderyn Mudol 300"*

*â 300 o artistiaid newydd o bob ffurf gelfyddydol at ei gilydd ar gyfer digwyddiad a gynhaliwyd mewn 300 o babelli dros gyfnod o 300 o oriau (gan gynnwys cyflwyniad "Sbotolau ar y DU").*

- **Gŵyl Ymylol Beijing***
  *Dan arweiniad y cyfarwyddwr ac arbenigwr theatr enwog, Mr Meng Jinghui, nod Gŵyl Ymylol Beijing yw hybu gwaith theatr annibynnol, uchelgeisiol ac arloesol i gynulleidfaoedd a gweithwyr theatr ifanc. Yn ogystal â llwyfannu'r cynyrchiadau theatr diweddaraf o Tsieina a thramor, mae'r ŵyl hefyd yn cynnal seminarau, gweithdai creadigol a darlleniadau sgript. Caiff yr ŵyl ei chynnal yn flynyddol yn ystod mis Medi, ac mae'n para am fis. Yng ngŵyl 2025 cyflwynwyd 20 o gynyrchiadau gan weithwyr creadigol ifanc, 6 o weithiau digidol, 6 darlleniad, a 2 fforwm.*

- **<u>Gŵyl Gelfyddydau Rhyngwladol Tsieina Shanghai</u>**
  *Cafodd Gŵyl Gelfyddydau Rhyngwladol Tsieina Shanghai (CSIAF) ei sefydlu yn 1999. Mae'n ŵyl genedlaethol ar gyfer celfyddydau rhyngwladol a gynhelir yn flynyddol gan Weinyddiaeth Diwylliant a Thwristiaeth Tsieina. Mae'n cael ei threfnu gan Lywodraeth y Bobl, Rhanbarth Ddinesig Shanghai. Mae gan CSIAF wyth o rannau gwahanol - gan gynnwys ffair a fforwm ar gyfer celfyddydau perfformio (ChinaSPAF). Dyma'r brif sioe arddangos a'r brif farchnad flynyddol ar gyfer gwaith newydd o Tsieina sydd hefyd yn cysylltu crëwyr a gweithwyr celf proffesiynol o ledled y byd. Yn 2015, cyflwynwyd 55 o gynyrchiadau yn CSIAF - gyda 129 o berfformiadau a 1,200 o weithgareddau - rhwng 17 Hydref a 27 Tachwedd.*

  **<u>Gŵyl Ddawns Guangdong</u>**
  *Mae Gŵyl Ddawns Guangdong yn un o'r pethau gwych am fywyd diwylliannol Guangdong. Mae'n ŵyl sydd nid yn unig yn cyflwyno rhai o arloeswyr amlycaf y byd dawns rhyngwladol, ond hefyd yn rhoi llwyfan i artistiaid newydd sy'n dechrau dod i'r amlwg yn Tsieina. Mae'r ŵyl yn cynnal perfformiadau mewn theatrau a mannau cyhoeddus yn ogystal â phrosiectau cydweithio gyda sefydliadau o wahanol feysydd. Cynhelir yr ŵyl am wythnos bob blwyddyn yn ystod tymor yr hydref.*

  **Gŵyl Theatr Cwm y Ddrama Fodern (*Modern Drama Valley*)***
  *Mae Gŵyl Cwm y Ddrama Fodern yn un o wyliau theatr mwyaf dylanwadol Tsieina sy'n cyflwyno dramâu o Tsieina yn ogystal â dramau rhyngwladol. Mae'r gweithiau a gyflwynir yn cynnwys dramâu Tsieineaidd, theatr bop, addasiadau o glasuron a chynyrchiadau theatr blwch du mewn amryw o ganolfannau yn Rhanbarth Jing'an yn Shanghai. Yn 2025, cyflwynwyd 20 o gynhyrchiadau (84 o berfformiadau), ynghyd ag amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrofiadau theatrig mewn canolfannau llai ymhob is-ranbarth a thref - rhwng 25 Ebrill a 2 Mehefin.*

  **<u>Gŵyl Theatr Shekou</u>***
  *Mae Gŵyl Theatr Shekou yn defnyddio model deori cwbl annibynnol sy'n cwmpasu holl broses creu a pherfformio gweithiau theatr. Caiff y perfformiadau deori gwreiddiol eu llwyfannu mewn gofodau theatrig anghonfensiynol - ar strydoedd, mewn lleoliadau diwydiannol a thai mawr glan môr. Yn 2025, cyflwynodd Gŵyl Theatr Shekou dros 100 o*

*wahanol weithgareddau gan gynnwys perfformiadau safle-benodol, darlleniadau o ddramâu newydd, digwyddiadau estyn allan a chymunedol - rhwng 5 a 16 Tachwedd.*

**Gŵyl Theatr Wuzhen***
*Cynhelir Gŵyl Theatr Wuzhen bob blwyddyn yn nhref hynafol Wuzhen, yn Nhalaith Zhejiang. Mae'n ŵyl fawr sy'n ddathliad o gelfyddyd perfformio ac yn ganolbwynt ar gyfer cyfnewid diwylliannol mewn tref odidog o gamlesi a strydoedd cefn hynafol. Mae'r ŵyl yn cynnwys pedair elfen rhyng-gysylltiedig: Cynyrchiadau a Wahoddwyd yn Arbennig; Cystadleuaeth i Artistiaid Theatr Newydd: Prif Garnifal; a Deialogau Wuzhen. Yn 2025, cyflwynwyd 25 o gynhyrchiadau lleol a rhyngwladol o 10 gwlad (71 o berfformiadau, ynghyd â charnifalau a theatr stryd mewn mannau cyhoeddus) - rhwng 16 a 26 Hydref.*

## Cerddoriaeth

**Gŵyl Gerddoriaeth Beijing**
*Cynhelir Gŵyl Gerddoriaeth Beijing (BMF) gan Lywodraeth Drefol Beijing. Cafodd ei sefydlu yn 1998 gan yr arweinydd Long Yu sydd bellach yn Gadeirydd Pwyllgor Artistig yr ŵyl. Yn ogystal â chyflwyno perfformiadau gan gerddorion a cherddorfeydd o fri rhyngwladol, mae'r ŵyl hefyd yn hybu cerddoriaeth gyfoes o Tsieina a gwledydd y Gorllewin gan gomisiynu a chynnal perfformiadau o weithiau newydd. Yn 2025, cynhaliwyd 11 o berfformiadau gan artistiaid o 26 o wledydd - rhwng 10 a 24 Hydref.*

**Gŵyl Jazz Guangzhou**
*Cafodd yr ŵyl ei chynnal am y tro cyntaf yn 2015 yn Neuadd Gyngerdd Xinghai, ac mae'n ddigwyddiad diwylliannol o bwys i bobl sy'n caru jazz yn Tsieina. Mae'n denu amrywiaeth eang o brif gerddorion jazz y wlad. Yn 2025 cyflwynwyd 4 perfformiad ynghyd â 20 o weithgareddau ymylol - rhwng Medi a Thachwedd.*

**Gŵyl Gerddoriaeth Midi**
*Mae Gŵyl Gerddoriaeth Midi yn un o wyliau cerddoriaeth roc mwyaf Tsieina. Mae'n cael ei chynnal gan Ysgol Gerddoriaeth Midi Beijing. Mae'r ŵyl yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu a hybu cerddoriaeth roc, gwerin ac electronig yn Tsieina.*

**Gŵyl Yfory, Shenzhen**
*Mae Gŵyl Yfory yn ŵyl gerddoriaeth amgen a gynhelir yn OCT-LOFT yn Shenzhen. Mae'n cyflwyno amrywiaeth o arddulliau cerddorol gan gynnwys roc arbrofol, cerddoriaeth avant-garde, jazz rhydd a cherddoriaeth byd. Y profiad artistig a chreadigrwydd yw curiad calon yr ŵyl.*

**Gŵyl Gerddoriaeth Mefus *(Strawberry)***
*Mae Gŵyl Gerddoriaeth Mefus yn ddigwyddiad awyr agored a sefydlwyd, ac a drefnir gan, Modern Sky - label recordiau annibynnol mwyaf Tsieina. Cynhelir yr ŵyl yn flynyddol mewn nifer o wahanol ddinasoedd yn Tsieina, gan roi llwyfan i artistiaid o Tsieina yn ogystal ag artistiaid rhyngwladol.*

**Gŵyl 'Gerddoriaeth Byd' Tiandi**

*Dyma'r ŵyl 'cerddoriaeth byd' fwyaf a gynhelir yn Tsieina. Mae'n cael ei chyflwyno gan XINTIANDInac mae'n dod â grwpiau cerddorol o bob rhan o'r byd at ei gilydd i berfformio ar lwyfan yr ŵyl. Mae'r ŵyl yn defnyddio cerddoriaeth fel pont i ddod ag amrywiaeth a chyfoeth gwledydd y byd i Tsieina yn ogystal â chyflwyno diwylliant Tsieina i'r byd.*

## Celfyddydau Gweledol

**Ffair Gelfyddydau ART021 Shanghai**

*Sefydlwyd Ffair Gelfyddydau Cyfoes ART021 Shanghai yn 2013, ac mae'n un o ffeiriau celf hynaf a mwyaf Tsieina. Mae'n ymroi i feithrin cysylltiadau a chynnig platfform masnachu byd-eang i orielau, amgueddfeydd, sefydliadau celfyddydol, casglwyr a phobl sy'n caru celf - gan ddatblygu a hybu enw da Tsiena ym myd celfyddyd gyfoes a chreu cyfle i ryngweithio â'r farchnad gelf weledol fyd-eang. Yn 2024, denwyd 131 o arddangoswyr o 20 o wledydd a rhanbarthau i'r ffair - rhwng 7 a 10 Tachwedd.*

**Design Shanghai**

*Mae Design Shanghai yn un o ddigwyddiadau dylunio mwyaf nodedig y byd, a phrif ddigwyddiad dylunio Asia. Mae'n ŵyl sy'n torri tir newydd yn gyson ac mae'n gosod y safon ar gyfer cymuned ddylunio Tsieina sy'n prysur dyfu. Yn 2025, daeth dros 600 o frandiau dylunio o dros 30 o wledydd a rhanbarthau i'r ŵyl.*

**Gŵyl Ddylunio Deirblwydd Guangzhou**

*Mae Gŵyl Ddylunio Deirblwydd Guangzhou yn fenter newydd gan Amgueddfa Gelf Guandong (GDMoA) sy'n anelu i fod yn blatfform rhyngwladol i ddylunio cyfoes blaengar yn ogystal ag ymchwil a arweinir gan ddyluniad. Thema'r ŵyl gyntaf oedd "The Warm-beings"; cyflwynwyd gwaith gan 100 o artistiaid, dylunwyr a mentrau cydweithio o 27 o wledydd a rhanbarthau - rhwng 16 Ionawr a 31 Mai (2024).*

**JINGART Beijing**

*Nod JINGART Beijing yw dod â diwylliant deinamig Beijing a'r farchnad gelfyddydau rhyngwladol at ei gilydd. Mae JINGART yn cyflwyno celf a dylunio o'r ansawdd uchaf o wahanol gyfnodau a genres, gan gynnig llwyfan i arddangoswyr, casglwyr, artistiaid a phobl sy'n caru celf - yn lleol a rhyngwladol. Mae gŵyl JINGART yn cael ei chynnal gan dîm ART021 Shanghai. Yn 2025, denodd yr ŵyl 50 o arddangoswyr o 11 o ddinasoedd - rhwng 2 a 25 Mai.*

**Biennale Shanghai**

*Cafodd Biennale Shanghai ei lansio yn 1996. Dyma'r ŵyl ddwyflynyddol gyntaf o'i math ar gyfer celf ryngwladol gyfoes yn Tsiena, ac mae'n un o ddigwyddiadau celfyddydol mwyaf dylanwadol Asia. Ers 2012 mae'r ŵyl yn cael ei threfnu gan yr Orsaf Bŵer Gelf, a bellach dyma leoliad parhaol Biennale Shanghai hefyd. Thema'r pymthegfed biennale yw "Ydy'r Blodyn yn Clywed y Wenynen?" - rhwng 8 Tachwedd 2025 a 31 Mawrth 2026.*

**<u>Gŵyl Celf a Dylunio West Bund</u>**
*Nod Gŵyl Celf a Dylunio West Bund yw rhoi llwyfan i orielau lleol a rhyngwladol i arddangos gweithiau modern a chyfoes o ansawdd uchel yn Shanghai. Yn ogystal ag amrywiaeth eang o arddangosfeydd a digwyddiadau mewn amgueddfeydd ac orielau, mae Gŵyl Celf a Dylunio West Bund yn cyfoethogi map celfyddydol Shanghai a gwneud y ddinas yn gyrchfan a rhan bwysig o'r calendr celfyddydol byd-eang. Yn 2024, denodd yr ŵyl 122 o arddangoswyr o 22 o wledydd - rhwng 8 a 10 Tachwedd.*

## Llenyddiaeth

**Gŵyl Lyfrau Rhyngwladol Beijing**
*Cynhelir Gŵyl Lyfrau Rhyngwladol Beijing ochr yn ochr â [Ffair Lyfrau Ryngwladol Beijing](#) (BIBF). Mae'n cyflwyno arddangosfeydd a digwyddiadau diwylliannol i gyffroi darllenwyr a phobl sy'n caru llyfrau. Yn 2025, denodd yr ŵyl 1,700 o arddangoswyr o 80 o wledydd a rhanbarthau - rhwng 18 a 22 Mehefin.*

**Gŵyl Lenyddol Ryngwladol Shanghai**
*Sefydlwyd Gŵyl Lenyddol Ryngwladol Shanghai yn 2003 - fel chwaer ddigwyddiad i Ŵyl Lenyddol Ryngwladol Hong Kong. Cynhelir digwyddiadau'r ŵyl yn ardal hanesyddol y Bund - ar lan y dŵr yng nghanol dinas Shanghai. Bellach, dyma'r digwyddiad llenyddol Saesneg ei iaith fwyaf a mwyaf nodedig a gynhelir yn Tsieina. Yn 2025 gwahoddwyd 30 o ysgrifenwyr i'r ŵyl, lle cynhaliwyd 50 o ddigwyddiadau gan gynnwys "Noson Farddoniaeth" - rhwng 12 a 18 Awst.*

* Mae pob un o'r gwyliau uchod sydd â seren (*) wrth eu henwau wedi cytuno i fod yn bwynt cyswllt i ddeiliaid ein Grantiau Teithio i Tsieina - i gynnig argymhellion ar gyfer perfformiadau a gweithgareddau, yn ogystal â chyngor am logisteg leol.

## Cyllideb

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi gyflwyno cyllideb ar gyfer eich trip. Bydd llunio cyllideb prosiect ar sail ymchwil trylwyr yn eich galluogi i weld yr hyn sy'n bosibl o fewn yr amserlen sy'n agored i chi, a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd hefyd yn fodd i nodi risgiau a pharatoi i ddelio ag unrhyw newidiadau a allai ddigwydd.

Mae'r costau y byddwch o bosib am eu hystyried yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Teithio a thrawsgludo | Costau trên / tanwydd ar gyfer cyfranogwyr, neu gostau trawsgludo deunyddiau/eitemau | Naill ai cost *Per Diem*, neu gost yr holl drip ar gyfer pob person - yn aml, bydd rhaid amcangyfrif hyn |
| Costau fisa | Fisas ymwelwyr, fel arfer | Cost fesul cais – gan gynnwys ffi'r fisa a theithio i ganolfan fisa os bydd angen |

| | | |
|---|---|---|
| Lwfans cynhaliaeth / *per diems* | Lwfans dyddiol ar gyfer bwyd a diod wrth deithio i wlad arall | Cost fesul person fesul diwrnod (fel arfer, 2-3 pryd bwyd bob diwrnod) |
| Llety | Ystafell mewn gwesty | Cost fesul noson (gwiriwch unrhyw drethi ychwanegol) - yn aml, bydd rhaid amcangyfrif hyn |
| Yswiriant Teithio | Yswiriant byd-eang | Oni ddarperir hyn gan bolisi sefydliadol |
| Tocynnau | Costau mynychu digwyddiadau celfyddydol | Ar sail gwir bris tocynnau, neu amcangyfrif o'r gost |
| Arian Wrth Gefn | Swm o arian ar gyfer unrhyw gostau anisgwyl a all godi wrth gyflawni amcanion y trip yn effeithiol | Cyfyngir cyfanswm yr arian wrth gefn i 10% o'r gyllideb ar gyfer y grant yma |

Noder, gallwch wneud cais am arian ychwanegol - cyllideb hygyrchedd - i'ch galluogi i gyflawni'r trip yma e.e. dehonglwyr iaith arwyddion, costau sy'n deillio o sicrhau fod gwestai/teithio yn fwy hygyrch, darparu trafnidiaeth ar gyfer cyfranogwyr anabl neu gostau ar gyfer gweithwyr cymorth hygyrchedd.

| | | |
|---|---|---|
| Costau hygyrchedd | Er enghraifft, costau sy'n codi wrth wneud y trip yn hygyrch i ymgeiswyr dall, B/byddar neu drwm eu clyw (e.e. dehonglwyr iaith arwyddion perthnasol), neu gostau sy'n deillio o sicrhau fod canolfannau'n fwy hygyrch, neu ddarparu trafnidiaeth addas i gyfranogwyr/partneriaid anabl. Yn ogystal, gall hyn fod yn gost ar gyfer gweithiwr cymorth hygyrchedd i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar yr ymgeisydd | Gall fod yn gyfradd tâl dyddiol ar gyfer dehonglwyr iaith arwyddion neu arbenigwyr hygyrchedd. Neu gall fod yn gost addasu deunyddiau neu leoliadau i'w gwneud yn fwy hygyrch ar gyfer eich prosiect, neu sicrhau trafnidiaeth addas ar gyfer cyfranogwyr anabl |

Weithiau, does dim modd nodi union gostau rhai elfennau wrth baratoi eich cyllideb. Er hynny, mae'n bwysig amcangyfrif a rhagweld costau o'r fath a sicrhau fod darpariaeth ariannol wrth gefn gennych ar gyfer costau annisgwyl. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth drefnu prosiectau rhyngwladol lle gall newidiadau cymdeithasol-economaidd byd-eang neu drychinebau naturiol gael effaith sylweddol ar gyllidebau. Os nad ydych yn gwybod beth fydd eich union gostau wrth baratoi eich cyllideb:

- Defnyddiwch ddata hanesyddol/marchnad - gallwch holi gwerthwyr am gyfraddau costau a/neu holi pobl brofiadol o'ch cwmpas.
- Ar gyfer elfennau lle gall prisiau/costau amrywio (e.e. tocynnau awyren), gallwch rowndio ffigurau i'r 00au agosaf.
- Gallwch gynnwys adran 'Treuliau Wrth Gefn' yn eich cyllideb. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'n cadw tua 5-10% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer treuliau wrth gefn. Ni chaniateir trefniant treuliau wrth gefn o fwy na 10% ar gyfer y grant teithio yma.

## Asesu

**Maen Prawf 1: Ansawdd (25%)**

Mae'r sefydliad sy'n anfon cynrychiolydd yn sefydliad o ansawdd artistig/creadigol uchel sydd â'r gallu i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol.

Bydd yr aseswyr yn chwilio am:

- Brawf fod gan y sefydliad **hanes o raglenni celfyddydol o ansawdd artistig uchel.**
- Prawf fod gan y sefydliad y **gallu i ddatblygu prosiectau rhyngwladol neu hanes o gyflawni prosiectau o'r fath**.
- **Addasrwydd yr unigolyn a fydd yn teithio** - sicrhau fod y gallu ganddynt i gychwyn a rheoli prosiectau cydweithio rhyngwladol.

**Maen Prawf 2: Addasrwydd (25%)**

Mae'r trip arfaethedig yn berthnasol ac yn creu cyfleoedd i'r sefydliad gynyddu ei ddealltwriaeth o'r sector diwylliannol yn Tsieina, yn ogystal â datblygu rhwydweithiau â chydweithwyr ar dir mawr Tsieina.

Bydd yr aseswyr yn chwilio am:

- Brawf fod y sefydliad celfyddydol yn Tsieina a ddewisir **yn bartner addas ar gyfer y sefydliad yng Nghymru**, ac yn cyflwyno gwaith o ansawdd artistig/creadigol uchel.
- Prawf fod yr ymgeisydd wedi nodi canlyniadau posibl y trip.

**Maen Prawf 3: Rheoli (25%)**

Mae'r trip arfaethedig wedi'i gynllunio'n dda, gydag adnoddau digonol ar gael.
Bydd yr aseswyr yn edrych am:

- **Brawf fod y trip arfaethedig wedi'i gynllunio'n dda,** a bod y cynlluniau hynny'n rhoi ystyriaeth i unrhyw risgiau neu gamau lliniaru rhesymol.
- **Cyllideb realistig** â phrawf o ymchwil trylwyr.
- **Amserlen realistig** i wireddu amcanion y trip.

**Maen Prawf 4: Cynhwysiant (25%)**

Mae'r cais yn hybu cydnabyddiaeth a chynyddu amlygrwydd a dylanwad menywod, pobl anabl a gweithwyr creadigol proffesiynol eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru.

Bydd yr aseswyr yn chwilio am:

- Ymgeiswyr o sefydliadau sydd **heb ymwneud â'r British Council o'r blaen**.
- Prawf na fydd yr ymgeisydd yn gallu cyflawni'r trip arfaethedig heb gymorth y grant.
- Prawf o fwriad yr ymgeisydd i rannu'r hyn a ddysgir drwy'r trip gyda'r sector diwylliannol**.**

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Fel sefydliad cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol, mae'r British Council yn gweithio tuag at brif ffrydio ein hegwyddorion a'n harferion CAC ar draws ein holl linynnau gwaith. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfranogwyr a phartneriaid.

Gofynnwn i'n derbynwyr grantiau gyd-fynd â dull cynhwysol y British Council. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y ddogfen ganlynol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | British Council

Byddwn yn asesu eich cais ar sut mae'n dangos ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sut mae'n creu cyfleoedd i grwpiau neu gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Gall ceisiadau gynnwys disgrifiad byr o'r hyn y mae amrywiaeth a/neu gynhwysiant yn ei olygu yng nghyd-destun eich prosiect a'ch gwledydd a rhannu mwy o wybodaeth am y cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol rydych chi'n bwriadu gweithio gyda nhw. Bydd angen i chi rannu'r hyn y mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei olygu i'ch cyd-destun, partneriaid a lleoliadau a dweud wrthym sut mae hynny wedi llywio dyluniad a chyflwyniad y prosiectau.

Rydym yn cydnabod nad yw bob amser yn bosibl cael darpariaeth o leoliadau hygyrch mewn cyd-destunau gwahanol wledydd, ond gallwch ddisgrifio beth mae mynediad yn ei olygu yng nghyd-destun eich gwlad, a beth allai safon dda o fynediad ei olygu yn eich gwlad os felly.

## Cymorth Hygyrchedd Wrth Baratoi Eich Cais

Mae croeso i chi gyflwyno'ch atebion i rai cwestiynnau (a nodir yn y ffurflen) drwy fideo. Os ydych yn defnyddio fideo, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu fideo gwahanol ar gyfer pob ateb yn ei dro - gan rannu dolen YouTube breifat yn y blwch ymateb. Ni fyddwn yn asesu fideos ar sail eu hansawdd technegol, ond gofynnwn i chi sicrhau ein bod yn gallu gweld a chlywed y siaradwr yn glir. Mae croeso i chi gyflwyno fideos gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Noder, ni ddylai unrhyw fideo fod yn hirach na'r uchafswm hyd a nodir ym mhob cwestiwn.

Gallwch wneud cais am gymorth hygyrchedd i dalu am dreuliau a gododd wrth gwblhau'r ffurflen gais hon. Gall costau cymorth hygyrchedd gynnwys gweithwyr cymorth hygyrchedd, dehonglwyr iaith arwyddion, adnoddau technegol neu gefnogaeth iechyd meddwl. Caiff y treuliau hyn eu diffinio fel unrhyw gostau sy'n codi oherwydd anabledd nad oes rhaid i eraill eu talu wrth wneud cais. Mae'r cymorth yma ar gael i bob ymgeisydd ag anabledd, p'un a fydd eu cais yn llwyddiannus ai peidio.

Mae'r cymorth ar gael ar ddwy amod:

1: Eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen gais a llwytho pob dogfen ategol ofynnol i fyny.

2: Ein bod yn derbyn eich cais erbyn y dyddiad cau.

Noder, ni fyddwn yn asesu ansawdd y Gymraeg neu Saesneg ysgrifenedig a ddefnyddir wrth gyflwyno cais.

## Cysylltu

Os oes unrhyw gwestiynnau pellach gennych, cysylltwch â: Arts@britishcouncil.org.cn